# Cam 1 – Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru – Cwestiynau Cyffredin

## Cyllid grant ar gyfer creu “Pasbortau Adeiladau – Diogelwch Tân”

### Cynnwys


Beth mae cyllid Cam 1 yn ei gwmpasu? .......... 1
Pa adeiladau sy'n gymwys i gael cyllid Cam 1? .......... 1
Pa agweddau y bydd arolwg diogelwch tân yn eu cynnwys? .......... 1
Beth yw Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân? .......... 2
A yw hyn yn gymwys i'r sector preifat a'r sector cyhoeddus? .......... 2
Pa mor gyflym y gellir cynnal arolwg diogelwch tân unwaith y bydd cyllid wedi'i sicrhau? .......... 2
Am faint o amser y bydd Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân yn ddilys? .......... 3
Sut y gallwn wneud cais am gyllid Cam 1? .......... 3
Pwy fydd yn cynnal yr arolygon? .......... 3
Os bydd arolygon eisoes wedi'u cynnal ar gyfer adeilad, a fydd angen iddynt gynnal un arall cyn y byddant yn gallu creu Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân? .......... 3
Preswylydd/lesddeiliad ydwyf. A allaf gael gwybodaeth am yr arolwg diogelwch tân a'r Pasbort? .......... 4
A fydd yr arolwg diogelwch tân yn dileu'r angen i gael EWS1? .......... 4
Beth y gallaf ei wneud os na fydd perchennog/asiant rheoli fy adeilad yn gwneud cais am gyllid i gynnal arolwg diogelwch tân? .......... 4
Beth nesaf? Os canfyddir problemau, a fydd Llywodraeth Cymru yn helpu i ariannu gwaith adfer? .......... 4
A oes angen creu Pasbort Adeilad fel rhagofyniad i gael rhagor o gyllid? .......... 5


### Beth mae cyllid Cam 1 yn ei gwmpasu?

Rydym yn darparu cyllid grant ar gyfer personau cyfrifol/perchenogion adeiladau/asiantau rheoli er mwyn iddynt allu comisiynu arolygon diogelwch tân cynhwysfawr o adeiladau cymwys. Bydd hyn yn darparu asesiad o unrhyw ddiffygion diogelwch tân a geir yn yr adeilad neu arno a chamau y dylid eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â nhw. Bydd hyn yn sail i Basbort Adeilad - Diogelwch Tân.

### Pa adeiladau sy'n gymwys i gael cyllid Cam 1?

Bydd adeiladau preswyl amlfeddiannaeth sy'n 11m neu fwy o uchder yn gymwys i gael cyllid Cam 1. Fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth i adeiladau uchel iawn (sy'n 18m neu fwy o uchder neu sydd â 7 llawr neu fwy) i ddechrau.

### Pa agweddau y bydd arolwg diogelwch tân yn eu cynnwys?

Er mwyn sicrhau bod adeiladau cymwys mor ddiogel â phosibl, byddwn yn darparu cyllid grant er mwyn i bersonau cyfrifol allu comisiynu arolygon diogelwch tân i nodi unrhyw broblemau mewnol ac allanol. Bydd yr arolygon yn cynnwys asesiad o'r

cladin ar amlen allanol yr adeilad ac asesiad o adrannu mewnol (gallu strwythur yr adeilad i atal tân rhag ymledu o'r man lle mae'n dechrau). Bydd y rhain yn llywio'r gwaith o lunio “Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân”.

**Beth yw Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân?**

Mae Pasbort Adeilad yn system rheoli asedau sy'n cydnabod y cyfle i waith ar adeilad gael ei integreiddio a sicrhau arbedion maint, lleihau tarfu a gwneud y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael. Bydd gwybodaeth a geir yn yr arolwg diogelwch tân yn rhan o'r Pasbort Adeilad - Diogelwch Tân.

Caiff y Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân ei ddatblygu gan bersonau cyfrifol/perchenogion adeiladau/asiantau rheoli. Bydd yn nodi problemau mewn adeilad a pha fesurau diogelwch tân y dylid ac y gellir eu rhoi ar waith. Bydd hyn yn blaenoriaethu'r gwaith hwn hefyd. Nod y Pasbort fydd sicrhau bod gwaith diogelwch tân sydd angen ei wneud ar yr adeilad yn cyd-fynd â gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd a mesurau datgarboneiddio er mwyn cynnig cyfle i sicrhau arbedion cost drwy rannu costau comisiynu a rheoli prosiect a sicrhau y terfir cyn lleied â phosibl ar breswylwyr.

I grynhoi, mae'r arolwg yn darparu gwybodaeth am **ba** ddiffygion sydd i'w cael a **sut** y gellir mynd i'r afael â nhw. Mae'r Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân yn mynd â'r wybodaeth honno gam ymhellach ac yn nodi **pryd** y gellir gwneud gwaith adfer angenrheidiol a **phryd** y mae angen gwneud gwaith o'r fath.

Yn hytrach na mabwysiadu dull gweithredu cyffredinol, mae creu Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân yn sicrhau bod y gwaith adfer yn bodloni gofynion yr adeilad unigol.

Byddwn yn rhoi canllawiau ar sut i ddatblygu'r Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân.

**A yw hyn yn gymwys i'r sector preifat a'r sector cyhoeddus?**

Ydy. Mae adeiladau preswyl amlfeddiannaeth sy'n 11m neu fwy o uchder o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn gymwys i wneud cais. Mae hyn yn cynnwys adeiladau defnydd cymysg.

**Pa mor gyflym y gellir cynnal arolwg diogelwch tân unwaith y bydd cyllid wedi'i sicrhau?**

Personau cyfrifol/perchenogion adeiladau/asiantau rheoli fydd yn gyfrifol am gomisiynu’r arolygon unwaith y bydd cyllid wedi'i roi. Hefyd, mae nifer o ffactorau a fydd yn effeithio ar amserlenni ar gyfer arolygon, megis argaeledd gweithwyr proffesiynol â chymwysterau addas i'w cynnal, sy'n golygu ei bod yn anodd darparu amserlen.

Rydym yn ymwybodol bod problemau gydag adnoddau ac yswiriant indemniad proffesiynol mewn perthynas ag arolygon. Mae'r agweddau hyn yn gofyn am ymyrraeth gan Lywodraeth y DU ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yno er

mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi darparu cyllid ychwanegol er mwyn cynyddu nifer yr aseswyr sy'n gymwys i gynnal arolygon o waliau allanol (EWS1) a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r pwysau ar adnoddau.

**Am faint o amser y bydd Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân yn ddilys?**

Dim ond unwaith y mae angen creu Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân, ond mae'n ddogfen fyw. Caiff unrhyw wybodaeth ac arolygon sy'n ymwneud â'r adeilad megis gwaith sy'n ymwneud â diogelwch tân, gwaith datgarboneiddio a gwaith a gynlluniwyd (arolygon cyflwr) eu bwydo i mewn i'r Pasbort ac maent yn creu amserlen er mwyn iddynt gael eu gwneud. Mae'r amserlen hon yn hyblyg a gellir ei haddasu er mwyn darparu ar gyfer nifer o ffactorau sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, flaenoriaeth mesurau diogelwch, argaeledd adnoddau yn y gadwyn gyflenwi, cyllid, technolegau newydd ac ati. Fel gydag unrhyw system rheoli asedau, caiff y Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân ei gynnal a'i ddiweddaru'n gyson wrth i waith gael ei gwblhau.

**Sut y gallwn wneud cais am gyllid Cam 1?**

Caiff ceisiadau am gyllid eu gwneud gan bersonau cyfrifol, perchenogion adeiladau neu asiantau rheoli adeiladau cymwys. Byddwn yn gwneud cyhoeddiad pellach ar sut i wneud cais am gyllid. Rydym yn rhagweld y bydd y cynllun yn barod i dderbyn ceisiadau yn ystod Hydref 2021.

**Pwy fydd yn cynnal yr arolygon?**

Oherwydd y dull cyfannol a fabwysiedir i gynnal arolygon diogelwch tân a ariennir, mae'n debygol y bydd angen mwy nag un gweithiwr proffesiynol i adolygu'r gwahanol agweddau hyn. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys syrfewyr adeiladau a pheirianwyr tân. Byddwn yn darparu rhagor o fanylion am yr arbenigedd sydd ei angen i gynnal arolwg diogelwch tân dilys a chanllawiau i gefnogi gwaith comisiynu ac yn rhoi hyder bod pobl â'r arbenigedd cywir yn cynnal yr arolwg. Bydd y wybodaeth hon ar gael yn yr Hydref.

**Os bydd arolygon eisoes wedi'u cynnal ar gyfer adeilad, a fydd angen iddynt gynnal un arall cyn y byddant yn gallu creu Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân?**

Os bydd gan berson cyfrifol/perchennog adeilad/asiant rheoli dystiolaeth o asesiadau neu arolygon dilys diweddar sy'n cwmpasu'r un agweddau â'r arolwg diogelwch tân, efallai na fydd angen cynnal rhagor o arolygon ac y gellir defnyddio gwybodaeth sy'n bodoli eisoes i lywio'r gwaith o greu'r Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân.

Fodd bynnag, rhaid ystyried yr agweddau mewnol ac allanol a fydd yn ffurfio'r arolwg diogelwch tân. Er enghraifft, os bydd adeilad wedi bod yn destun arolwg EWS1 diweddar sy'n nodi problemau gyda chladin ond na chynhaliwyd unrhyw asesiadau o adrannu mewnol, yna bydd angen comisiynu gwaith i asesu'r adrannu. Yn yr achos hwnnw, dim ond cais am gyllid i dalu am arolwg ar gyfer yr adrannu y gellir ei wneud.

**Preswylydd/lesddeiliad ydwyf. A allaf gael gwybodaeth am yr arolwg diogelwch tân a'r Pasbort?**

Fel rhan o ddangos gwaith rheoli cyfrifol a gweithgarwch ymgysylltu ystyrlon â phreswylwyr, byddem yn disgwyl i bersonau cyfrifol/perchenogion adeiladau/asiantau rheoli rannu gwybodaeth am broblemau ynglŷn â diogelwch lle y'u ceir a chamau sy'n cael eu hystyried i'w hunioni. Gallai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth a gafwyd fel rhan o'r arolygon diogelwch tân ac a ddatblygwyd ar gyfer y Pasbort.

Disgwylir i wybodaeth a geir drwy arolygon diogelwch tân a ariennir gan Lywodraeth Cymru fod ar gael yn hawdd i breswylwyr/lesddeiliaid.

**A fydd yr arolwg diogelwch tân yn dileu'r angen i gael EWS1?**

Na fydd, ni fydd y Pasbort Adeilad yn dileu'r angen i gael ffurflen EWS1.

**Beth y gallaf ei wneud os na fydd perchennog/asiant rheoli fy adeilad yn gwneud cais am gyllid i gynnal arolwg diogelwch tân?**

Byddem yn disgwyl i bersonau cyfrifol/perchenogion adeiladau/asiantau rheoli adeiladau cymwys ystyried anghenion eu hadeiladau a'u preswylwyr yn ofalus a gwneud cais am gyllid Cam 1 er mwyn sicrhau bod eu hadeilad mor ddiogel â phosibl.

Os bydd preswylydd/lesddeiliad yn awyddus i'w adeilad fod yn destun arolwg, gallant godi'r mater hwn gyda'r person cyfrifol, perchennog yr adeilad neu'r asiant rheoli. Os bydd pryderon nad yw person cyfrifol yn cyflawni ei ddyletswyddau ynglŷn â diogelwch tân yn briodol, gellir codi'r mater hwn gyda'r awdurdod lleol a/neu'r gwasanaeth tân ac achub.

**Pam rydych yn ariannu arolygon yn unig ac nid gwaith atgyweirio ac adfer go iawn?**

Mae angen inni gael darlun cywir o wir faint y problemau er mwyn llywio'n well y broses o ddatblygu ein cynlluniau i gefnogi gwaith adfer. Bydd Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân yn helpu i nodi faint o gyllid sydd ei angen a phryd, drwy fapio'r llwybr er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r defnydd o adnoddau.

**Beth nesaf? Os canfyddir problemau, a fydd Llywodraeth Cymru yn helpu i ariannu gwaith adfer?**

Rydym yn datblygu cronfa adfer a fydd yn ffurfio cam nesaf ein rhaglen gymorth. Mae manylion y gronfa hon yn cael eu datblygu a chânt eu llywio gan gyllid Cam 1. Bydd Pasbortau Adeiladau – Diogelwch Tân yn allweddol i nodi'r llwybr at waith adfer.

Bydd manylion pellach am y cam nesaf hwn o gymorth ar gael unwaith y bydd wedi'i gwblhau erbyn Gwanwyn 2022.

**A oes angen creu Pasbort Adeilad fel rhagofyniad i gael rhagor o gyllid?**

Oes. Caiff penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid eu gwneud drwy adolygu mesurau diogelwch a nodir yn y Pasbort Adeilad – Diogelwch Tân a fydd yn darparu tystiolaeth gydlynol a dibynadwy o'r hyn sydd ei angen.